YSGOL BRYNREFAIL

Ann Williams, Swyddog Addysg Gogledd Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Ann Williams , Swyddog Addysg y Cynulliad i fyfyrwyr blwyddyn 12 ar wleidyddiaeth a'r drefn wleidyddol yng Nghymru, Prydain ac Ewrop fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.
Diddorwyd pawb gyda chyflwyniad difyr a chyfoes ganddi am hanes y Cynulliad, y drefn wleidyddol yng Nghymru a phwerau deddfau'r Cynulliad, Senedd Llundain a Senedd Ewrop.
Dosbarthwyd taflenni ganddi ar ran y Cynulliad i'r myfyrwyr nodi unrhyw syniadau/ deddfau hoffan nhw drafod gyda gwleidyddion y Cynulliad. Dengys hwn fod gwleidyddion y Cynulliad yn barod i wrando ac ystyried barn pobl ifanc.
Cafwyd hefyd drafodaeth am ddeddfau rhyfedd sydd yn parhau mewn bodolaeth megis –
"Y mae'n gyfreithlon i Gymro gael ei saethu gyda bwa saeth o fewn welydd Caer wedi hanner nos !!!!"